Ports, Past and Present
Calafoirt, Inniu agus Inné
Porthladdoedd, Ddoe a Heddiw

Cyfarwyddiadau i Awduron ac Artistiaid

Mae tîm 'Porthladdoedd, Ddoe a Heddiw' yn cynnig 12 bwrsariaeth gwerth £5,000 yr un (neu'r cywerth mewn ewros) i greu gwaith creadigol a fydd yn cyfrannu at nodau ac amcanion y prosiect hwn a gynhelir gan nawdd yr UE.

Trosolwg o'r Prosiect

Ariennir y prosiect gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy Raglen Gydweithredol Cymru-Iwerddon. Byddwn yn tynnu ar ymchwil academaidd a phartneriaethau cymunedol er mwyn datblygu cyfleoedd newydd i dwristiaeth rhwng pum tref borthladd ar y naill ochr i Fôr Iwerddon, sef Dulyn, Rosslare, Caergybi, Abergwaun a Doc Penfro, ynghyd â chymunedau arfordirol eraill cyfagos.

Nod y prosiect yw dod â bywyd a lliw i'r pum porthladd, gan ychwanegu at brofiad teithwyr modern o bob oed a diddordeb, ac annog pobl i dreulio rhagor o amser a gwario mwy o arian yn y trefi hyn. Byddwn yn gwneud hyn trwy gydweithio â chymunedau lleol a chyda rhanddeiliaid yn y diwydiant ymwelwyr i gynyddu ymwybyddiaeth twristiaid sy'n pasio drwyddo o hanes arbennig y mannau hyn.

Bydd timau'r prosiect yn darparu gwybodaeth mewn sawl gwahanol fformat, gan gydweithio ag awdurdodau'r porthladdoedd, cludwyr trafnidiaeth, asiantaethau twristiaeth, ac artistiaid ac awduron lleol i ddatblygu safleoedd / golygfeydd / traffig newydd ar gyfer ymwelwyr, ac i gomisiynu gweithiau creadigol yn y celfyddydau gweledol ac mewn llenyddiaeth a ffilm. Byddwn yn defnyddio technoleg ddigidol, yn cynnwys apiau a chyfryngau cymdeithasol, i ddod o hyd i gynulleidfaoedd newydd. Bydd yr Wyddeleg a'r Gymraeg yn ganolog i holl gynnwys y prosiect.

Arweinir y prosiect gan Goleg Prifysgol Corc ar y cyd â Phrifysgol Aberystwyth, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru (Y Ganolfan Geltaidd) a Chyngor Sir Wexford.

EU Funds: Ireland Wales Programme 2014-2020

Tionól Réigiúnach an Deiscirt
Southern Regional Assembly

Cláir Chistí Eorpacha Struchtúrtha agus Infheistíochta na hÉireann 2014–2020
Cómhaoinithe ag Rialtas na hÉireann agus ag an Aontas Eorpach

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

Gwaith Creadigol

Yn rhan o'r prosiect, byddwn yn comisiynu chwe awdur a chwe artist gweledol i'w lleoli yng Nghymru ac Iwerddon. Bydd gofyn iddynt weithio gyda chymunedau'r trefi porthladd a staff y prosiect i fynd i'r afael â straeon a themâu sy'n berthnasol i hanes a diwylliant y pum tref a'r teithiau a wnaed ohonynt ar draws Môr Iwerddon. Yna, bydd y gwaith creadigol a fydd yn deillio o'r ymchwil a'r ymgysylltu hwn yn cael ei arddangos yn lleol ac yn ehangach fel y bo'n briodol, gyda chefnogaeth tîm y prosiect, ac mewn rhai achosion, partneriaid lleol. Y gobaith yw y bydd peth o'r gwaith a gynhyrchir yn cael ei arddangos yn barhaol yn yr ardaloedd eu hunain – mewn llyfrgelloedd lleol, canolfannau treftadaeth, yn nherfynellfeydd y porthladdoedd neu mewn gorsafoedd rheilffordd, er enghraifft. Bydd atgynhyrchiadau neu gyfryngiadau o'r gwaith yn cael eu cynnwys mewn un neu ragor o gyhoeddiadau a fydd yn dogfennu'r gwaith a'r broses greadigol.

Pwrpas y gwaith fydd gwella gwybodaeth a gwerthfawrogiad cymunedau lleol o hanes a diwylliant y pum tref borthladd a'r mordeithiau iddynt ac ohonynt, ac, ar yr un pryd, gynyddu potensial twristaidd y mannau hyn, gan annog ymwelwyr i dreulio mwy o amser yn dod i adnabod y trefi a'r ardaloedd o'u cwmpas.

Yn ystod y broses o wneud y gwaith, bydd artistiaid yn cymryd rhan mewn gweithdai cyhoeddus neu ddigwyddiadau a drefnir gan dîm y prosiect. Bydd prosiect 'Porthladdoedd, Ddoe a Heddiw' hefyd yn comisiynu cyfres o ffilmiau byr, ac anogir gwneuthurwyr y ffilmiau i gydweithio â'r artistiaid a'r awduron. Rhoddir cefnogaeth a chyhoeddusrwydd i'r gweithgareddau a'r digwyddiadau hyn gan dîm y prosiect, a byddant yn cael eu cynllunio mewn modd a fydd yn helpu i godi proffil yr awduron a'r artistiaid, yn lleol ac yn ehangach.

Rhagwelir y bydd ystod eang o wahanol fathau o awduron ac artistiaid gyda setiau o sgiliau amrywiol yn cymryd rhan yn y prosiect. Anogir yr artistiaid a'r awduron i gydweithio â'i gilydd fel y bo hynny'n briodol i'w gwaith a'u lleoliadau. Dylent ddangos gwerthfawrogiad o ardal Môr Iwerddon a'i harwyddocâd i'r cymunedau arfordirol.

Themâu

Mae tîm y prosiect wedi nodi nifer o grwpiau a sefydliadau penodol a fyddai'n awyddus i gydweithio ag artistiaid neu awduron; gellir ymholi am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r rhain. Croesewir cynigion yn ymwneud ag unrhyw un o'r themâu canlynol, neu unrhyw thema arall sy'n berthnasol i'r prosiect:

- **Symudiadau pobl ac anifeiliaid**: gwaith, hamdden, mudo, pererindod
- **Tywydd ac amgylchedd**: newid hinsawdd, bywyd gwyllt, llongddrylliadau
- **Gwleidyddiaeth y môr**: rhyfel ac ymerodraeth, Môr Iwerddon fel gofod pŵer; pensaernïaeth y porthladdoedd; ffiniau, trethi, Brexit.
- **Cyflyrau meddwl a chorff**: cyffro, ofn, salwch y môr, diflastod, cariad a cholled

Ffioedd a Threuliau

Telir bwrsariaeth o £5,000 (neu'r cywerth mewn ewros) mewn dau randaliad, y cyntaf ar ôl dechrau'r gwaith, a'r ail wedi ei gwblhau.

Amserlen

Rhwng Mehefin 2020 a Rhagfyr 2021 fydd y cyfnod gweithgaredd. Gellid gwneud y gwaith fesul cam dros y cyfnod i gyd, neu mewn un cyfnod byr o weithgaredd, neu ragor nag un. Gwahoddir artistiaid i gymryd rhan mewn digwyddiadau ac arddangosfeydd cysylltiedig hyd at ddiwedd cyfnod y prosiect (Hydref 2022).

Proses Ymgeisio

Ffrâm Amser

- • Dyddiad Cau Cam Un: 20 Mawrth 2020 (caiff yr ymgeiswyr a fydd wedi cyrraedd y rhestr fer eu hysbysu erbyn 3 Ebrill)
- • Dyddiad Cau Cam Dau: cyflwyno cynigion cyn diwedd Ebrill 2020 (caiff y 12 ymgeisydd llwyddiannus eu hysbysu erbyn 22 Mai)
- • Cyfnod Gweithgaredd y Prosiect: Mehefin 2020 – Rhagfyr 2021

Cam Un: Mynegi Diddordeb

Gwahoddir artistiaid ac awduron i gyflwyno darn byr (tua 500 gair) yn nodi'r rhesymau am eu diddordeb yn y prosiect, ac i ddarparu datganiad personol (CV) cryno gydag enghreifftiau perthnasol o waith blaenorol. Gweler isod am fanylion cyswllt.

Meini prawf ar gyfer y dethol yng Ngham Un

- Hanes da, ac ansawdd gwaith blaenorol
- Y gallu i ymgysylltu â chymunedau
- Perthnasedd i themâu'r prosiect

Cam Dau: Gwahodd Cynigion

Bydd yr ymgeiswyr a fydd wedi llwyddo i gyrraedd y rhestr fer yn derbyn gwahoddiad i ddatblygu cynigion manwl ar y cyd â thîm y prosiect a grwpiau cymunedol (lle y bo hynny'n berthnasol). Rhoddir arweiniad pellach ar y pryd, ond dylai'r cynigion gynnwys:

- natur a chwmpas y gwaith arfaethedig
- awgrymiadau ar sut y gallai'r gwaith gael ei brofi a'i arddangos
- natur a chwmpas yr ymgysylltiad â chymunedau lleol

Y dyddiad cau ar gyfer mynegi diddordeb yw 20 Mawrth 2020.

Mae'n bosibl y byddwn am gyf-weld ymgeiswyr, neu gynnal ymweliadau stiwdio, fel rhan o'n proses o ddethol a phenderfynu. Caiff yr ymgeiswyr llwyddiannus eu hysbysu erbyn 22 Mai 2020.

Croesewir cynigion a fydd yn cynnwys defnydd o'r Gymraeg a'r Wyddeleg.

Anfonwch eich darnau yn mynegi diddordeb at gydlynydd prosiect 'Porthladdoedd, Ddoe a Heddiw', Dr Sarah Baylis, yng Nghanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru:
sarah.baylis@cymru.ac.uk

Am ragor o wybodaeth am y prosiect 'Porthladdoedd, Ddoe a Heddiw', gweler ein gwefan:
http://portspastpresent.eu/
Twitter: @PortsPastPres

Os oes gennych ymholiadau anffurfiol ynglŷn â'r bwrsariaethau, mae croeso i chi gysylltu â:

mcrampin@cymru.ac.uk (cyfarwyddiadau i artistiaid)

mary-ann.constantine@cymru.ac.uk (cyfarwyddiadau i awduron)